Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar / Chief Officer Education and Early Intervention
Ian Roberts

Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR
Lambpit Street, Wrexham LL11 1AR
Ffôn/Tel: 01978 292000
www.wrecsam.gov.uk www.wrexham.gov.uk

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Eich Cyf/Your Ref	
Ein Cyf/Our Ref	IR/ELL
Dyddiad/Date	4 Mehefin / June 2020
Gofynner am/Ask for	Ian Roberts
Rhif Cyswllt/Contact No	
E-bost/E-mail	ian2.roberts@wrexham.gov.uk

Annwyl Riant/Gofalwr / Dear Parent/Carer

Yn gyntaf, a gaf i ddiolch ichi am eich ymdrechion parhaus gydag addysg gartref ers 20 Mawrth pan gaeodd ysgolion at ddibenion addysgol. Rwy'n deall y pwysau sydd ar deuluoedd a phwysigrwydd sicrhau bod plant yn gallu dychwelyd i'r ysgol pan fydd hi'n ddiogel gwneud.

Ddydd Mercher 3 Mehefin, cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, y bydd ysgolion yn ailagor ddydd Llun 29 Mehefin 2020 ac y byddant yn parhau ar agor tan ddydd Gwener 24 Gorffennaf 2020. Pwrpas ailagor yw rhoi cyfle i ddisgyblion i "Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi", wrth bwysleisio na fydd pob disgybl yn mynychu bob dydd, na fydd mwy na thraean y disgyblion yn yr ysgol ar unrhyw un adeg ac yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol, gallai gymryd peth amser i ysgolion gyrraedd y lefel hon. Mae hyn er mwyn sicrhau bod iechyd a diogelwch disgyblion a staff yn cael eu gwarchod.

Bydd Llywodraeth Cymru yr wythnos nesaf yn darparu arweiniad i ysgolion ar weithredu'r ailagor, a bydd ysgolion yn ystyried y canllaw hwn i sicrhau bod y disgyblion yn dychwelyd mor rhwydd a

Firstly, can I thank you for your on-going efforts with home schooling since 20 March when schools closed for educational purposes. I understand the pressures that families are under and the importance of ensuring that children are able to return to school when it is safe to do.

On Wednesday 3 June, Kirsty Williams, Minister for Education, announced that schools will be reopening on Monday 29 June 2020 and will remain open until Friday 24 July 2020. The purpose of reopening is to provide pupils with an opportunity to *"Check in, Catch up and Prepare for Summer and September*" whilst emphasising that not all pupils will attend everyday, that there will be no more than up to one-third of pupils in a school at any one time and that depending on the context of the school, it could take schools some time to reach this level. This is to ensure that the health and safety and well being of pupils and staff are protected.

Welsh Government will next week be providing guidance to schools on implementing the reopening, and schools will consider this guidance to ensure as smooth and safe return to school for the pupils as possible. In

diogel a phosibl i'r ysgol. Yn ogystal, mae asesiadau risg yn cael eu cynnal ym mhob ysgol ar draws y Fwrdeistref. Bydd pob ysgol yn asesu ei sefyllfa ei hun ac efallai na fydd dull unffurf ar draws pob ysgol ac nad yw pob ysgol yn gallu cynnig yr un lefel o ddarpariaeth, oherwydd ffactorau megis lle o fewn yr adeilad a hefyd argaeledd staff. Ym mhob ystyriaeth, y brif egwyddor fydd cadw plant a staff ysgolion mor ddiogel â phosibl. Mae ein hysgolion eisoes wedi dechrau cynllunio ar ba ddiwrnodau y bydd eich plentyn / plant yn gallu mynychu'r ysgol. Os gwelwch yn dda byddwch yn amyneddgar wrth i'ch ysgol ddatblygu'r trefniadau. Gallwch fod yn sicr y bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu o'r trefniadau gyda digon o rybudd cyn 29 Mehefin. Nid oes angen ichi gysylltu â'r ysgol ar y pwynt hwn. Yn ogystal, byddwch yn cael gwybodaeth mewn perthynas â chludiant cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion cymwys a threfniadau cinio ysgol cyn gynted â phosibl. A gaf i ddiolch i chi am eich ymdrechion a'ch dyfalbarhad wrth barhau i ddarparu addysg gartref i'ch plant.	addition, risk assessments are being carried out in all schools across the Borough. Each school will be assessing its own situation and it may be that there will not be an uniform approach across all schools and that not all schools are able to offer the same level of provision, due to factors such as building capacity and also staffing availability. In all considerations, the main principle will be to keep children and school staff safe as possible. Our schools have already started to plan on which days your child/ren will able to attend school. Please bear with your school whilst they develop the arrangements. Please be assured that your child's school will contact you to notify you of the arrangements with sufficient notice ahead of 29 June. There is no need for you to contact the school at this point. In addition, you will be provided with information in respect of home to school transport for qualifying pupils and school dinner arrangements as soon as possible. Can I thank you for your efforts and perseverance in continuing to provide home schooling to your children.

Yn ddiffuant / Yours sincerely

Ian Roberts
Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar /
Chief Officer Education and Early Intervention

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.

We welcome correspondence in Welsh.
We will respond to any correspondence in Welsh and this will not lead to any delay.